

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 06.10.2015
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Danny Davies, Arwel Nicholas, Dylan Jones, Mike Poston, Pamela Jones, Carolyn Smethurst, Elfed Davies, Cyngorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau: Wyn Thomas

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir; AJ a DJ	
Cynllun Trafnidiaeth	<p>Derbyniwyd y Cynllun yn ddi-rhybydd a phenderfynnwyd ei drafod:</p> <p>AN: cynllun I weld yn ateb y gofynion heb osod cyniciau cyflymdra. Angen trafod naill ai cylchfan ynte cyffordd ar waelod Rhiw Cŵpers.</p> <p>DJ: dim digon o fesurau diogelwch ar yr heol heibio'r Cae Chwarae. CS yn cyfeirio at data y monitors oedd yn dangos fod trafndiaeth eisioes yn arafu.</p> <p>AN: beth am 'Llwybrau Diogel I Gymunedau', oes modd cysylltu'r ddau?</p> <p>DD: beth yw barn pawb ynglyn a'r cyffordd ar waelod Rhiw Cŵpers, a dylid creu cylchfan yno?</p> <p>MP: mae modd cam ddefnyddio cylchfan yn ogystal a chyffordd.</p> <p>Ar ôl trafodaeth cynhwysfawr, penderfynnwyd yn unfrydol mae cyffordd fydde fwya addas, yn benodol oherwydd peryg methu a dringo'r rhiw pan fyddai eiria a rhew.</p> <p>CS: pwy fydde'n talu am y Cysgodfan Bws, ynte'r Sir neu'r Gymuned? Beth am ymestyn ardal 20 mya heibio'r Neuadd/Cae Chwarae? Angen trafod pa waith fydd yn cael ei wneud ym mha flwyddyn.</p> <p>DD: a oes angen cynnal cyfarfod cyhoeddus I drafod y Cynllun?</p> <p>CS o'r farn fod angen cyfarfod cyhoeddus a J McEvoy I fod yn bresennol.</p> <p>ED: Efallai nad oes angen Cyfarfod Cyhoeddus, fyddai cyhoeddu fod y Cynllun I'w weld mewn man cyhoeddus yn ddigonol?</p> <p>DD: yn cynnig cyhoeddu yn LI y LI fod y Cynllun I'w weld ar yr Hysbysfwrdd a phobl sydd am wneud sylwadau yn cysylltu gyda'r Clerc</p>	
Materion yn	Y Garreg Coffa - ar waith, y pris fel y dyfynnwyd yn y	

Codi	cyfarfod diwethaf. Y Ficerdy - Amodau cynllunio l'r adeilad newydd yn y Ficerdy oedd bod y clawdd yn cael eu dynnu nôl 2 medr a thocio yn cael ei wneud l'r ddwy goeden ffawydden. CS yn gofyn l'r Clerc l atgoffa'r Adran Gynllunio am yr amodau Band Llydan – BT yn cyhoeddu dylai'r wasanaeth diwygiedig fod yn gweithio o fewn 6 mis.	
Gohebiaeth	Llwyncalennig – dim gwrthwynebiad l'r cais l newid cyfeiriad y llwybyr cyhoeddus Arolygydd Cynllunio – cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd San Pedr l drafod Fferm Wynt Brechfa Swyddfa Archwilio Cymru – yr archwilwyr presennol, BDO, yn cael ei olynu gan KPMG	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd £72.60c – cytunwyd ei dalu DJ & CS	
UFA	Clerc wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir ynglyn a glendid safloedd bysiau Llanpumsaint. MP wedi gwneud archwiliad ohonynt, wedi penderfynu eu bod mewn cyflwr boddhaol ac yn fodlon l fonitro/glanhau l'r dyfodol. PJ – angen bin halen ar penheol Pantydrw MP – a oes modd gofyn l berchen y tir sydd o dan Cilgwyn l harddu'r fynedfa? Yr heol gerllaw mynedfa Nant yr Ynys wedi mallu. CS – Heddwas Cymunedol, Alexander Squire yn cymeryd yr awenau ar Wyllo Cyflymdra yn y Gymuned tra bod Martin Dickenson l ffwrdd. Cyhoeddir manylion am y cynllun yn Ll y Ll ED – angen halen yn y biniau mewn da o bryd! IJ – penodwyd Pennaeth Cynllunio newydd, Llinos Quelch, yn enedigol o Llwyncrychydod, Llanpumsaint AN – Dim DD – Dim Cinio Nadolig – Clerc l gysylltu gyda'r Railway Inn a gofyn am fwydlen y Nadolig ac amser/dyddiad ar gyfer y cinio blynyddol.	
Cyfarfod yn gorffen	9.35 yh	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: